**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-01-01(p7)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 17 Ionawr 2001

**Amser:** 2.00 - 5.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwygora 1, Adeilad y Cynlliad Cenedlaethol

**Teitl y Papur: Gweithredu Menter Gymunedol EQUAL yng Nghymru**

**Diben**

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar flaenoriaethau Menter EQUAL yng Nghymru.

**Crynodeb / Argymhellion**

2. Gweler drafft cyntaf Cynllun Gweithredu EQUAL yng Nghymru yn Atodiad 1. Mae'n egluro'r cyd-destun o ran polisi a'r farchnad lafur ac yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithredu'r fenter. Mae Pennod 4 yn rhestru'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi hyd yma wrth ymgynghori â phartneriaid. Gofynnwn am farn y Pwyllgor am eu priodoldeb.

**Amserlen**

3. Bydd Cynllun EQUAL Cymru wedi ei gwblhau erbyn canol mis Chwefror 2001 ac yna fe'i cyflwynir i Bwyllgor Monitro EQUAL Prydain er mwyn ei gymeradwyo. Bydd y rhaglen yn cychwyn ym mis Mawrth 2001.

**Cefndir**

4. Menter adnoddau dynol newydd gan y Gymuned Ewropeaidd yw EQUAL sy'n ceisio datblygu dulliau dyfeisgar o fynd i'r afael â chamwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y farchnad lafur, drwy gydweithio ar lefel ryngwladol. Mae'r fenter yn pwysleisio pwysigrwydd lledaenu gwybodaeth a dylanwadu ar y broses bolisi. Bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion cyfle cyfartal sy'n ymwneud â rhyw, anabledd, hil neu gefndir ethnig, crefydd neu gredo, oed a thuedd rywiol. Bydd y fenter hefyd yn rhoi cymorth i ffoaduriaid (y rheini sy'n ceisio lloches) i ddod yn rhan o'r gymdeithas a'r farchnad waith.

5. Y DfEE sy’n gyfrifol am ddatblygu’r fenter ar lefel Prydain, ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth yr Alban. Mae aelodau wedi derbyn copi drafft o raglen EQUAL Prydain eisoes (EDC-15-00 refers) ac mae’r Comisiwn yn ei drafod ar hyn o bryd. Mae dogfen y DU yn caniatau Cynllun Gweithredu ar wahân i Gymru, dan reolaeth Pwyllgor Rheoli Cymru, a chydag adnoddau wedi’i neilltuo’n benodol ar ei gyfer. Tua £12m ar gyfer y cyfnod 2000 – 2006 fydd y ffigur yng Nghymru a bydd y rhaglen drwyddi draw, gan gynnwys cyllid cyfatebol, yn werth tua £24m.

6. Gweler drafft cyntaf Cynllun Gweithredu Cymru yn Atodiad 1. Gwaith sydd ar droed yw hwn, ond mae’n egluro cyd-destun y fenter yng Nghymru o ran y farchnad lafur; yn tynnu sylw at rai o’r prif bolisïau y bydd EQUAL yn eu cefnogi (e. e. Rhoi Cymunedau’n Gyntaf, y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth; Sgiliau Dyfodol Cymru etc); yn nodi blaenoriaethau gwaith datblygu yng Nghymru ac yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithredu’r fenter. Grwp Cyswllt EQUAL Cymru sy’n goruchwylio’r gwaith ar Gynllun Cymru – mae hwn yn grwp partneriaeth sy’n dod â chynrychiolwyr o’r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ynghyd, ac yn cynnwys y comisiynau cydraddoldeb statudol a’r prif fudiadau cydraddoldeb. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori ar wahân gyda nifer o gyrff, gan gynnwys y CBI; Siambrau Masnach; FSB; TUC Cymru; y Comisiwn Cyfle Cyfartal; y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol; DRC; Cyngor yr Henoed; Anabledd Cymru; AWEMA a Chymdeithas Gydweithredol Cymru. Yn ogystal, cafodd Pwyllgorau Monitro Amcan 1 ac Amcan 3 gyfle i gyflwyno’u sylwadau ar y blaenoriaethau. Mae’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal hefyd yn ystyried y cynllun drafft ac fe’i cwblheir erbyn canol mis Chwefror. Yna caiff ei gyflwyno’n ffurfiol i Bwyllgor Monitro Prydain er mwyn ei gymeradwyo a bydd y rhaglen yn mynd rhagddi yng Ngwanwyn 2001.

7. Ceir briff cwestiwn ac ateb ar EQUAL yn Atodiad 2.

**Ystyriaethau**

8. Mae EQUAL yn wahanol i raglenni prif ffrwd y Gronfa Strwythurol gan ei fod yn rhoi’r pwyslais ar **gynlluniau newydd** a’i fod yn **rhyngwladol** ei natur. Nid dod o hyd i swyddi neu gyfleoedd addysgol yw unig ddiben y fenter (er bod hynny’n ddefnyddiol ynddo’i hun). Yn ei hanfod, y bwriad yw treialu a phrofi dulliau newydd o fynd i’r afael â chamwahaniaethu yn y farchnad lafur mewn partneriaeth ag Aelod-wladwriaethau eraill a dysgu gwersi a all ddylanwadu ar ddatblygu polisi. Mae’r prif bwyslais ar ddod o hyd i atebion cyffredin i broblemau sy'n bodoli ar draws Ewrop.

9. Bydd y fenter yn annog defnyddio dulliau integredig, thematig er mwyn mynd i’r afael â’r problemau dyrys sy’n wynebu’r gwahanol grwpiau targed, yn hytrach na

chanolbwyntio ar anghenion grwpiau targed penodol. Mae'r blaenoriaethau a nodir ym Mhennod 4 wedi eu rhestru yn ôl y meysydd thematig a nodwyd yn rheoliadau EQUAL yr UE. Maent wedi eu selio ar hoelion wyth strategaeth gyflogaeth yr UE a nodwyd yng Nghytundeb Amsterdam (e.e cyflogadwyedd; entrepreneuriaeth; y gallu i addasu a chyfle cyfartal).

10. Wrth bennu ffocws y rhaglen yng Nghymru, mae angen inni fod yn realistig am raddfa ac ystod y gwaith datblygu y gallwn ei wneud gyda'r cyllid sydd ar gael. Mae'n anochel wrth ymgynghori â phartneriaid bod rhestr hir o flaenoriaethau wedi'u nodi. Ar un olwg mae hyn yn ddealladwy gan fod sefyllfa'r grwpiau targed yng Nghymru ar y cyfan yn waeth na'r rheini ar lefel Brydeinig, hynny ar sail y rhan fwyaf o ddangosyddion gwrthrychol. Mae lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ar y cyfan yn uwch ac mae lefelau cymwysterau yn gyffredinol is. Dylem anelu at roi blaenoriaeth i nifer hylaw o feysydd sy'n berthnasol i'n hanghenion ni ac a fyddai'n cynnig inni'r gwersi mwyaf buddiol trwy waith datblygu ar y cyd â gwledydd eraill yr UE. Dylai EQUAL osgoi gwneud gwaith y byddai rhaglenni Amcan 1 a 3 y brif ffrwd yn gallu ei wneud cystal.

**Casgliad**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig ei sylwadau ar flaenoriaethau EQUAL yng Nghymru a amlinellir ym Mhennod 4 Cynllun Gweithredu drafft Cymru yn Atodiad 1. Yn arbennig, gwahoddir barn y Pwyllgor am:

- ai'r blaenoriaethau a nodir yw'r rhai iawn neu a oes eisiau ychwanegu blaenoriaethau atynt?

- a oes yna aelod-wladwriaethau penodol y gallwn ddysgu oddi wrthynt wrth inni fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn?

- a ddylid targedu'r blaenoriaethau hyn ar sail ddaearyddol?

- sut orau allwn sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu lledaenu a'u rhoi ar waith?

**Is-adran Materion Ewropeaidd**